OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1481 (Cy. 265)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Tachwedd 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Tachwedd 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Rhagfyr 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau mewn cysylltiad â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(**3**) at offeryn UE a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn, gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**4**) ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**2**) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/1046 (Cy. 185).

(**4**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2019.

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

**2.** Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" rhodder—

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 2406/96" ("*Regulation 2406/96*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*"), "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*"), "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*") a "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*") yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn yr Atodlen;";

(ii) yn y diffiniad o "rhoi gyntaf ar y farchnad", yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625";

(iii) yn y diffiniad o "gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod", yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625";

(iv) yn lle'r diffiniad o "rheolaethau swyddogol" rhodder—

"mae i "rheolaethau swyddogol" yr ystyr a roddir i "official controls" yn Erthygl 2(1) o Reoliad 2017/625;";

(v) yn y diffiniad o "prosesu", yn lle "ym Mhennod V o Adran B o Atodiad IV i Reoliad 852/2004" rhodder "yn Rheoliad 2017/625";

(vi) yn y diffiniad o "mewnforyn trydedd wlad", yn lle "y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan Reoliad 882/2004" rhodder "y mae tâl a nodir yn Atodiad 4 i Reoliad 2017/625 yn daladwy mewn cysylltiad ag ef";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at offeryn UE a ddiffinnir yn yr Atodlen yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd."

**4.** Yn rheoliad 3 (gwir gostau)—

(a) yn lle "a restrir yn Atodiad VI i Reoliad 882/2004" rhodder "y cyfeirir atynt yn Erthyglau 81 a 82 o Reoliad 2017/625";

(b) yn lle "Atodiad III i Reoliad 854/2004" rhodder "Deitl 6 o Reoliad 2019/627 ac Atodiad 6 iddo".

**5.** Yn rheoliad 4 (cyfwerthoedd y bunt â'r Ewro), ym mharagraff (3)—

(a) yn is-baragraff (b), ar ôl "ym mhob blwyddyn ddilynol" mewnosoder "hyd nes y daw Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019 i rym";

(b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) ar ôl i Reoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ddod i rym, cyfartaledd y cyfraddau a

gyhoeddir yng Nghyfres C o Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer pob diwrnod yn ystod y cyfnod tâl pan gyhoeddir y gyfradd."

**6.** Yn rheoliad 9 (taliadau sy'n daladwy i fwy nag un awdurdod bwyd), yn lle "Atodiad III i Reoliad 854/2004" rhodder "Deitl 6 o Reoliad 2019/627 ac Atodiad 6 iddo".

**7.** Yn rheoliad 10 (talu tâl glanio), yn lle "Atodiad III i Reoliad 854/2004", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Deitl 6 o Reoliad 2019/627 ac Atodiad 6 iddo".

**8.** Yn rheoliad 12 (tâl o ran sefydliadau prosesu), yn lle "Atodiad III i Reoliad 854/2004", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "Deitl 6 o Reoliad 2019/627 ac Atodiad 6 iddo".

**9.** Yn lle'r Atodlen (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

27 Tachwedd 2019

## YR ATODLEN

Rheoliad 9

## "YR ATODLEN

Rheoliad 2

### DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH YR UE

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*") yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynghylch hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(**5**);

ystyr "Rheoliad 2406/96" ("*Regulation 2406/96*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2406/96 sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd penodol(**6**);

ystyr "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd(**7**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005;

ystyr "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**8**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gigoedd ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(**9**);

ystyr "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(**10**);

ystyr "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**11**);

ystyr "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**12**);

ystyr "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (EU) Rhif 1151/2012, (EU) Rhif 652/2014, (EU) 2016/429 ac (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ac (EC) Rhif 1099/2009 a

---

(**5**) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 195, 2.6.2004, t. 12).
(**6**) OJ Rhif L 334, 23.12.1996, t. 1.
(**7**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 3), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).
(**8**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 22), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).
(**9**) OJ Rhif L 271, 15.10.2005, t. 17.
(**10**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1, fel y'i darllenir gyda'r Corigenda yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32 ac OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62.
(**11**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 27.
(**12**) OJ L Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.

Chyfarwyddebau'r Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, ac sy'n diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC(**13**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragennog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**14**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/627 sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol(**15**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185."

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3462) (Cy. 307). Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1), a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan y Rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(**13**) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1.
(**14**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 1.
(**15**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 51.